Mwynhau dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.

Ysgol Carreg Emlyn

Clocaenog, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2AY

Tel: Clocaenog 01824 750636 Cyffylliog 01824 710274

ysgol.carreg.emlyn@sirddinbych.gov.uk

www.ysgolcarregemlyn.cymru

@carregemlyn

Newyddion 6/3/17 News

Dydd Gwyl Ddewi/ St Davids Day

Daeth pawb i'r ysgol mewn dillad Cymreig ar ddydd Gwyl Dewi. Yn ystod y dydd buom yn brysur yn coginio a gwerthu cacennau cri er mwyn codi arian at Bobath Cymru – elusen sy'n helpu plant gyda parlys yr ymennydd. Casglwyd £82 at yr achos teilwng yma.

Everyone came to school in their Welsh clothes on St David's Day. During the day we baked and sold Welsh cakes to raise money for Bobath Wales, a charity that helps children with cerebral palsy. We raised £82 For this worthy cause.

Seren yr Wythnos

Llongyfarchiadau i Elsi, Aoife, Hari Gruff a Katie am fod yn Sêr yr Wythnos. Da iawn chi!

Dyddiadau i'w Cofio
Dates for your Diary

7, 14 & 21/3/17 CA2 Clwb yr Urdd *Club KS2*
8/3/17 Clwb Celf yr Urdd Bl 2/*Yr 2 Urdd Craft Club*
10/3/17 Diddanu Gymdeithas Capel Derwen a Clawddnewydd / *Entertaining Clawddnewydd and Derwen Chapel members* – Canolfan Cae Cymro.
15/3/17 Clwb Celf yr Urdd Bl 1/*Yr 1 Urdd Craft Club*
22/3/17 Celf a Chrefft yr Urdd – Cylch Rhuthun / *Urdd Arts and Craft Competition – Ruthin Area*
24/3/17 Casgliad dillad BAG2SCHOOL *Clothes collection*
31/3/17 Bingo Pasg Cyfeillion yr Ysgol / *Friends of the School Easter Bingo.* Canolfan Cae Cymro 6pm.
1/4/17 Eisteddfod Sir yr Urdd *County Eisteddfod*
7/4/17 Cau dros Pasg / *Close for Easter*
24/4/17 Diwrnod Hyfforddiant Staff / *Staff Training Day*
25/4/17 Plant yn cychwyn / *Children re start*

easyfundraising feel good shopping

Ewch i https://www.easyfundraising.org.uk/causes/carregemlyn/ ac ymuno am ddim.
Head to https://www.easyfundraising.org.uk/ causes/carregemlyn/ and join for free.

Diwrnod y Llyfr / Book Day

Dydd Iau roedd hi'n ddiwrnod y llyfr a daeth pawb a'i hoff lyfrau i'r ysgol. Daeth Y Parch. Morris P Morris i siarad gyda plant Bl 3 a 4 am ei hoff stori yn ei hoff lyfr – sef y Beibl. *Last Thursday it was Book Day and everyone bought their favourite book to school. Rev. Morris P Morris came to talk to the children about his favourite book, the bible, and read them his favourite story from it.*

Eisteddfod yr Urdd Cylch Rhuthun
Area Urdd Eisteddfod

Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch yn Rhuthun dydd Sadwrn, cawsom ddiwrnod llwyddianus iawn! Bu 15 o blant y Cyfnod Sylfaen a 12 o blant CA2 yn cystadlu yn unigol a llawer mwy mewn grwpiau. Diolch arbennig i chi rieni am ddod a'r plant i'r eisteddfod ac i'r staff fu yn helpu drwy'r dydd yn stiwardio ac hyfforddi. Diolch hefyd i Elin Llys am gyfeilio eto eleni. Cofiwch fod y cyntaf a'r ail o bob cystadleuaeth yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Sir fydd yn Rhuthun ar Ebrill 1af. Dyma'r canlyniadau:
Rhodri Rees – 3ydd am lefaru Bl 2 ac iau.
Gabriella Reese – 3ydd am lefaru Bl 3 a 4.
Tom Bean – 2il am chwarae gitar.
Ymgom (Angharad, Lola, Elain a Gwion) - 2il
Parti Unsain – 1af
Parti Cerdd Dant – 2il
Parti Llefaru – 2il
Cor – 2il.
Rydym yn edrych ymlaen at ddydd Sadwrn prysur arall ar Ebrill 1af. Gadewch i ni wybod yn syth os na fydd eich plentyn yn medru dod ar y diwrnod.

Congratulations to everyone who took part in the Area Eisteddfod in Ruthin on Saturday, we had a very successful day! We had 15 Foundation Phase children and 12 KS2 children competing in solo competitions as well as many more in different groups. A special thank you to all the parents for bringing the children to the Eisteddfod on Saturday and to the staff who gave up their day to help out by stewarding and teaching the children before the Eisteddfod. Also thanks to Elin Llys for being the accompanist again this year. The first and second in each competition will go on to the County Eisteddfod which will be in Ruthin on April 1st. Here are the results:
Rhodri Rees – 3rd – recitation Yr 2 and younger
Gabriella Reese – 3rd – recitation Yr 3 & 4.
Tom Bean – 2nd – guitar solo
Short play (Angharad, Lola, Elain a Gwion) – 2nd
Unison Singing Party – 1st
Cerdd Dant Party– 2nd
Recitation Party– 2nd
Choir – 2nd
We look forward to another busy day at the County Eisteddfod on April 1st. Please let us know as soon as possible if your child cannot attend on this date.

Noson Gwyl Ddewi Gymdeithas Capeli Clawddnewydd a Derwen
St David's Day Evening for Clawddnewydd and Derwen Chapel Society.

Cofiwch fod y plant fu'n cystadlu dydd Sadwrn yn perfformio eto nos Wener yng Nghanolfan Cae Cymro. Bydd angen i bawb wisgo gwisg Gymreig gan mai noson i ddathlu Gwyl Ddewi yw hon. Gofynnwn i chi fod yno am 6.55pm a dim cynharach gan y bydd aelodau'r Gymdeithas yn cael swper cyn y gyngerdd. Mae croeso i'r rhieni aros i wylio. Os nad ydych yn aros a wnewch chi ddod i nol eich plentyn am 8pm.
A reminder that the children who competed on Saturday will be performing again on Friday evening at Canolfan Cae Cymro. The children will need to wear their Welsh clothes as this is a St David's Day celebration. We would like the children to be there at 6.55pm and no earlier as the members of the society will be having a meal before the concert. The parents are welcome to stay to watch. If you are not staying can you pick up your child at 8pm.

Myfyrwyr / Students

Dydd Gwener oedd diwrnod olaf y ddwy fyfyrwraig oedd wedi bod gyda ni ers mis Ionawr. Diolchwyd i'r ddwy am eu gwaith caled yn y gwasanaeth dydd Gwener. Bu Miss Ela Jones yn dysgu Bl 3 a 4 a Miss Laura Humphreys yn dysgu Bl 1 a 2. *Friday was the last day for the two students that have been with us since January. During service on Friday we thanked both of them for their hard work. Miss Ella Jones has been with Yr 3 and 4 on the Clocaenog Site and Miss Laura Humphreys has been teaching Yr 1 and 2 on the Cyffylliog Site.*

Wythnos Brysur!
Busy Week!